

# Pwyllgor y Ty

## Cofnodion

**Dyddiad: 9 Tachwedd 2006**

**Amser: 2.00pm**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau yn bresennol:

Y Diprwy Lywydd (Cadeirydd, yn ystod rhan gyntaf y cyfarfod)

Lorraine Barrett, AC Llafur

Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol

William Graham, AC Ceidwadwyr (Cadeirydd, yn ystod ail ran y cyfarfod)

Janice Gregory, AC Llafur

Jane Hutt, AC Llafur

Owen John Thomas, AC Plaid Cymru

Y Llywydd (hefyd yn bresennol)

### Swyddogion yn bresennol:

Paul Silk, Clerc y Cynulliad

Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty

Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad

Adrian Crompton, Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau

Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol

Brian Davidge, Pennaeth TGCh

Steven O'Donoghue, Rheolwr Cyllid GSC

Wayne Cowley, Pennaeth y Swyddfa Ffioedd

Meriel Singleton, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty

### Eraill yn bresennol :

Andrew George (eitem 2.5)

Virginia Hawkins (eitem 2.12)

Denise Rogers (eitem 2.11)

John Grimes (eitem 2.11)

1	<b>Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion a gododd ohonynt</b>

1.1	Nododd yr aelodau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2006 wedi'u cyhoeddi ar 26 Hydref 2006.
1.2	Camau a gododd o'r cyfarfodydd blaenorol HC(2)-11-06(p1)
	<p>Nododd y Pwyllgor y rhaglen weithredu .</p> <p>Cytunodd Dianne Bevan i ymchwilio i faint yr hysbyseb ar gyfer swydd Swyddog Addysg.</p> <p>Camau i'w cymryd: Dianne Bevan i ymchwilio i'r mater hwn ac adrodd yn ôl i Bwyllgor y Ty</p>
2	<b>Eitemau i'w trafod</b>
2.1	Y Senedd
	<p>Cyfrifoldeb dros y Senedd (papur esboniadol) HC(2)-11-06(p2a)</p> <p>Y Senedd –Trosglwyddo Cyfrifoldeb i Bwyllgor y Ty (papur gan Gyfarwyddwr Prosiect y Senedd) HC(2)-11-06(p2b)</p> <p>Nododd y Cadeirydd a'r Pwyllgor fod y rhestr o ddiffygion o dan y contract wedi lleihau'n arw, fel yr amlygwyd yn ystod taith Pwyllgor y Ty drwy'r Senedd, er bod angen unioni nifer o ddiffygion. Gellid gwneud hyn naill ar drwy'r trefniadau contract neu drwy Dîm Prosiect Llywodraeth Cynulliad Cymru.</p> <p>Cytunodd y Pwyllgor i gymryd cyfrifoldeb dros y Senedd yn amodol ar gael cadarnhad boddhaol gan y Gweinidog Cyllid na fyddai unrhyw wrthwynebiad i geisiadau am arian pe bai problemau annisgwyl yn codi yn y dyfodol. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd gytuno ar eiriad y cadarnhad gyda swyddogion.</p> <p>Roedd ffigwr ar gyfer gwerth ardrethol Swyddfa'r Cynulliad, y Senedd ac Adeilad y Pierhead yn cael ei bennu. Byddai adroddiad am hyn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor y Ty.</p> <p>Camau i'w cymryd: Swyddogion a Chadeirydd Pwyllgor y Ty i gytuno ar eiriad y cadarnhad.</p> <p>Dianne Bevan i ddod ag adroddiad am werth ardrethol i gyfarfod nesaf Pwyllgor y Ty.</p>
2.2	TGCh

Ariannu TGCh, Cyfarpar Clyweledol a Darlledu yn y Senedd (eitem lafar)

Cyn dod i benderfyniad terfynol ynghylch y cais gan y Gweinidog Cyllid i'r Pwyllgor dalu'r costau annisgwyl a oedd wedi codi oherwydd y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â gwasanaeth a reolir ar gyfer TGCh y Senedd, cytunodd y Pwyllgor y dylid paratoi papur yn rhoi manylion y swm arfaethedig ac unrhyw gostau eraill sydd i'w talu o'r Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Camau i'w cymryd: Dianne Bevan i baratoi papur yn nodi'r ffigurau ar gyfer cyfraniad Pwyllgor y Ty ac unrhyw gostau eraill sydd i'w talu o'r Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu – y wybodaeth ddiweddaraf HC(2)-11-06(p3)

Cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r drafodaeth ar y fewnrwyd ac ar ddewis meddalwedd tan y cyfarfod nesaf.

Ymddiswyddiad y Cadeirydd

Cyhoeddodd John Marek ei fod yn bwriadu ymddiswyddo fel Cadeirydd Pwyllgor y Ty a chyflwynodd lythyr ymddiswyddiad i Glerc y Pwyllgor. Byddai'n parhau'n aelod o'r Pwyllgor. Gofynnodd y Clerc am enwebiadau ar gyfer swydd y Cadeirydd. Enwebwyd William Graham a, chan na chafodd neb arall ei enwebu, cafodd ei ethol yn Gadeirydd Pwyllgor y Ty ac ef fu'n llywyddu gweddill y cyfarfod.

Dewis URL ar gyfer Gwefan y Cynulliad HC(2)-11-06(p4)

Ystyriodd yr Aelodau bapur yn cynnig dewisiadau posibl ar gyfer URL y Cynulliad. Penderfynodd y Pwyllgor fabwysiadu'r ddau gyfeiriad a ganlyn:

[Assemblywales.org](http://Assemblywales.org)

[Cynulliadcymru.org](http://Cynulliadcymru.org)

a threfnu i ailgyfeirio [assembly-wales.org](http://assembly-wales.org) a [Cynulliad-cymru.org](http://Cynulliad-cymru.org) at y safle.

Trafododd y Pwyllgor yr ymgyrch i gael .cym fel parth lefel uchaf ar gyfer Cymru. Cytunodd y mwyafrif o Bwyllgor y Ty yn ffurfiol i gefnogi'r ymgyrch hon, er i Lorraine Barrett gofrestru ei bod yn ymatal ei phleidlais ar y mater.

Trafodwyd sut y dylid ariannu'r ymgyrch. Dywedodd y Clerc y byddai angen iddo ystyried ymhellach a ellid defnyddio adnoddau Pwyllgor y Ty at y diben hwn. Cytunodd y Pwyllgor i ystyried y mater ymhellach os cânt unrhyw geisiadau am arian ar gyfer yr ymgyrch.

2.3	<p>Polisi Recriwtio Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad – Ymgynghori â'r Undeb Llafur HC (2)-11-06(p5)</p> <p>Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y broses o ymgynghori â'r Undeb Llafur ynghylch y Polisi Recriwtio.</p>
2.4	<p>Gwasanaeth Cyfieithu'r Aelodau HC(2)-11-06(p6)</p> <p>Cytunodd y Pwyllgor ar yr argymhelliad i ddyrannu cyllideb i bob plaid ar gyfer Gwasanaeth Cyfieithu'r Aelodau yn hytrach nag i bob Aelod unigol, ond gofynnwyd a fyddai modd i'r grwpiau plaid gael adroddiad bob mis am yr arian a oedd yn cael ei wario.</p> <p>Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd anfon e-bost i atgoffa'r Aelodau o'r drefn ar gyfer defnyddio'r Gwasanaeth Cyfieithu.</p> <p>Camau i'w cymryd: Gwen Parry i ddsbarthu e-bost yn atgoffa'r Aelodau o'r drefn ar gyfer defnyddio'r Gwasanaeth Cyfieithu ac i baratoi adroddiadau bob mis i'r grwpiau plaid am y defnydd a wnaed o'r gwasanaeth hwn.</p>
2.5	<p>Prosiect Paratoi ar gyfer Etholiad 2007 HC(2)-11-06(p7)</p>
	<p>Nododd y pwyllgor ddulliau gweithredu Prosiect Paratoi ar gyfer Etholiad 2007 a chymeradwyodd y dull o fonitro hynt y prosiect.</p>
2.6	<p>Newidiadau i'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau HC(2)-11-06(p8)</p>
	<p>Cytunodd y Pwyllgor ar y newidiadau arfaethedig i Benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau a Swyddogion y Cynulliad) (Cyflogau, Lwfansau etc) 2005 ac y dylid ystyried hyn yn y Cyfarfod Llawn ar ddiwedd tymor yr Hydref.</p>
2.7	<p>Trosglwyddo arian Cyllideb 2006-07 HC(2)-11-06(p9)</p> <p>Cytunodd y pwyllgor ar y cynigion i drosglwyddo arian fel y nodwyd yn y papur.</p>
2.8	<p>Adroddiad Dichonoldeb Dros Dro ynghylch Cyfleusterau Gofal Plant HC(2)-11-06(p10)</p> <p>Nododd y Pwyllgor yr adroddiad dichonoldeb dros dro ynghylch cyfleusterau gofal plant.</p> <p>Cadarnhaodd Nerys Evans ei bwriad i ddarparu cyfleusterau i'r plant hynny a fyddai'n cael addysg Gymraeg.</p>
2.9	<p>Peiriannau Arian yn Swyddfa'r Cynulliad HC(2)-11-06(p11)</p> <p>Cytunodd y Pwyllgor i'r swyddogion ofyn am ddatganiadau o ddiddordeb yng nghyswllt gosod peiriant arian ar Ystâd y Cynulliad yn y Bae.</p>

2.10	<p>Gwyliau Blynyddol – Contract Glanhau – eitem lafar</p> <p>Nododd y Pwyllgor y newidiadau yng ngwyliau blynyddol gweithwyr yn y contract glanhau, a oedd wedi cynyddu i 20 diwrnod yn ogystal â Gwyliau Banc.</p>
2.11	<p>Fersiwn Drafft y Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl HC(2)-11-06(p12)</p> <p>Cymeradwyodd y Pwyllgor fersiwn drafft y Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl gan nodi y byddai'r eitemau ar y rhaglen weithredu'n cael eu cyflwyno eto i'w hystyried maes o law, ac y gallai olygu rhagor o gostau os caiff unrhyw rai ohonynt eu gweithredu.</p> <p>Roedd y cyhoeddusrwydd negyddol a oedd wedi ymddangos yn y wasg arbenigol ynghylch mynediad i'r Senedd, er gwaethaf yr holl ymdrechion a wnaed i hwyluso mynediad, yn peri pryder i'r Aelodau. Dywedodd Denise Rogers y byddai ymchwiliad i bob beirniadaeth benodol fel rhan o'r cynllun gweithredu a byddai camau'n cael eu cymryd i ddatrys unrhyw broblemau fel y bo'n briodol.</p>
2.12	<p>Ymgyrch y Bleidlais Ddu HC(2)-11-06(p13) (Trafodwyd yr eitem hon allan o'i threfn gyda John Marek yn y Gadair)</p> <p>Cadarnhaodd y Pwyllgor y cynnig ar gyfer y cynllun hwn o ran egwyddor, cyn belled ag y bo'r Cyfarfod Llawn yn cytuno ar unrhyw ddirprwyaeth angenrheidiol i Bwyllgor y Ty.</p> <p>Bu trafodaeth ynghylch cynnig cymorth ariannol i'r rheini sydd ynghlwm wrth y cynllun. Cytunodd Wayne Cowley i ystyried unrhyw oblygiadau posibl o ran treth.</p> <p>Camau i'w cymryd: Wayne Cowley i ystyried a fyddai goblygiadau o ran treth ynghlwm wrth roi cymorth ariannol.</p>
3	<p><b>Eitemau i'w nodi</b></p>

3.1 Cyfarfod yr Is-grwp Adeiladau HC(2)-11-06(p14)

Cymeradwyodd yr Aelodau gofnodion yr Is-grwp Adeiladu gan gytuno â'r argymhellion a oedd wedi'u cynnwys ynddynt.

Cyfarfod yr Is-grwp TGCh HC(2)-11-06(p15)

Nododd y Pwyllgor y cofnodion.

3.2 Trafododd y Pwyllgor y cynigion yng nghofnodion yr is-grwp TGCh i Bwyllgor y Ty ddyrannu adnoddau i dalu i Aelodau'r Cynulliad gael gliniadur ysgafn. Cytunwyd y dylid gofyn i'r Aelodau nodi'r math o liniadur yr hoffent ei gael ond roedd angen iddynt ddeall mai Pwyllgor y Ty fyddai'n penderfynu'n derfynol ar y mater. Dylai Pwyllgor y Ty hefyd ailedrych ar y mater pan oedd y costau terfynol ar gael.

Cytunodd Gwen Parry i ddsbarthu gwybodaeth i'r Aelodau ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd i'r gliniaduron presennol.

Camau i'w cymryd: Gwen Parry i roi gwybod i Bwyllgor y Ty beth yw costau terfynol liniaduron ysgafn

Gwen Parry i rannu gwybodaeth i'r Aelodau ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd i hen liniaduron.

Cyfarfod yr Is-grwp Arlwyo HC(2)-11-06(p16)

Nododd y Pwyllgor gofnodion yr Is-grwp Arlwyo.

Roedd pryder ynghylch un achlysur yn ddiweddar pan gafodd nifer fawr o ymwelwyr eu gwahodd gan Aelodau'r Cynulliad i ddefnyddio ffreutur y staff heb rybudd priodol, ac nid oedd yn bosibl i rai o staff y Cynulliad ddefnyddio'r ffreutur oherwydd hynny. Gofynnodd Pwyllgor y Ty i'r Is-grwp Arlwyo ystyried sut y gellid atal hyn rhag digwydd eto. Camau i'w cymryd: Yr Is-grwp Arlwyo i lunio argymhellion erbyn cyfarfod nesaf Pwyllgor y Ty

Dangosyddion yn erbyn Targedau HC(2)-11-06(p17)

Nododd yr Aelodau'r adroddiad.

Adroddiad Cyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad HC(2)-11-06(p18)

Nododd yr Aelodau'r adroddiad, a sylwadau Steven O'Donoghue ynghylch y gyllideb TGCh a'r gyllideb ar gyfer Rheoli Cyfleusterau.

Adroddiad misol Adnoddau Dynol HC(2)-09-06(p19)

Nododd yr Aelodau'r adroddiad.

3.3 Mynediad at Wybodaeth HC(2)-09-06(p20)

Nododd yr Aelodau'r adroddiad.

Gweithgareddau tramor a chysylltiadau allanol HC(2)-09-06(p21)

4 Nododd yr Aelodau'r adroddiad.

Materion a gyfeiriwyd at y Pwyllgor gan gynnwys Cwestiynau'r Cynulliad

4.1 Nododd yr Aelodau fod OAQ47882 a gyflwynwyd i'w ateb ar 20 Medi 2006 wedi'i ddsbarthu eisoes.

## 5 **Unrhyw Fater Arall**

5.1 Cytunodd y Pwyllgor y dylid anfon nodyn at Aelodau'r Cynulliad yn eu hatgoffa y dylai ymwelwyr sy'n defnyddio'r bont o'r Senedd i Swyddfa'r Cynulliad lofnodi yn Swyddfa'r Cynulliad yn hytrach nag yn y Senedd oherwydd gofynion diogelwch.

Nododd y Pwyllgor y papur ar y Strategaeth ar gyfer Gwasanaeth Rhanbarthol Gwybodaeth i'r Cyhoedd yn y dyfodol.

5.2

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7 Rhagfyr 2006

Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty